

CLWB MYNYDDA CYMRU – CYFARFOD BLYNYDDOL 2020

ADRODDIAD - YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

Fel y gwyddoch, mae wedi bod yn flwyddyn ryfedd eleni yn dilyn ymddangosiad y feirws Covid19 ac, fel lluo o sefydliadau a chymdeithasau eraill, cafodd effaith sylweddol ar weithgareddau'r Clwb. Bu'n rhaid canslo ein gweithgareddau am y misoedd pan fu'r wlad o dan y Clo Mawr. Wedi i'r cyfyngiadau gael eu codi, fe lwyddwyd i atgyfodi ein rhaglen gyda rheolau penodol ond pan ddaeth y Clo Bach bu'n rhaid eu canslo eto. Gobeithio erbyn y cyfarfod y bydd yn bosib i ni ail-ddechrau ein rhaglen o deithiau ar ôl i'r cyfnod clo ddod i ben.

Bu'n rhaid i'r Pwyllgor hefyd addasu ei drefniadau yn sgil y pandemig. Cafwyd cyfarfod mis Ionawr yn ôl y drefn arferol ym Mhlas y Brenin. Fodd bynnag, ar ôl mis Mawrth fe ddigwyddodd yr holl gyfarfodydd drwy gyfrwng Zoom. Mae'r trefniadau wedi gweithio'n dda a gwelwyd manteision gan fod aelodau ledled Cymru yn gallu cyfarfod dros y We gan osgoi'r angen i deithio pellteroedd sylweddol. O bosib byddwn yn parhau i gynnal ein cyfarfoddydd yn y dyfodol drwy'r cyfrwng yma. Rydym yn ddiolchgar i lolo ap Gwynn am hwyluso'r trefniadau.

Y prif faterion gafodd sylw'r Pwyllgor eleni oedd parhau gyda'r broses o gofrestru'r Clwb fel Elusen Gofrestredig. Cafwyd adroddiadau cyson gan Dilys, ein trysorydd, a fu'n weithgar iawn ar hyn a chafwyd gwybod yn ddiweddarach fod y cais i gofrestru wedi ei gymeradwyo gan y Comisiynwyr Elusennau a bod y Clwb bellach yn elusen gofrestredig.

Hefyd o dan arweiniad Gwyn, y Cadeirydd, cychwynwyd ar y gwaith o geisio adnabod hen ddogfennau sy'n cofnodi sefydlu a dyddiau cynnar y Clwb gyda'r nod o'u trosglwyddo i'r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn eu gwarchod fel tystiolaeth o ddatblygiadau ym myd gweithgareddau awyr agored drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod yr 20fed ganrif. Mae rhai o aelodau'r Clwb wrthi yn ceisio sefydlu yn union pa ddogfennaeth sydd ar gael.

Y mater a aeth a sylw'r Pwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn oedd effaith y pandemig ar weithgareddau'r Clwb. Cafwyd cyfarfod arbennig ym mis Awst i drafod sut y dylid ceisio ail-ddechrau ein gweithgareddau wrth i'r cyfyngiadau cenedlaethol gael eu codi. Fel y gwyddoch, fe ail ddechreuwyd rhaglen o weithgareddau o dan amodau penodol. Roedd y teithiau a drefnwyd yn boblogaidd, gyda'r mwyafrif yn llawn, ond bu'n rhaid dod â nhw i ben pan ddaeth y Clo Bach.

Wedi canslo'r Eisteddfod Genedlaethol am eleni ni lwyddwyd i gynnal ein darlith flynyddol ac mae'r trefniadau a wnaed ar ei chyfer yn cael eu trosglwyddo i Eisteddfod 2021 yn Nhregaron.

Bydd cyfnod Gwyn fel Cadeirydd y Clwb yn dod i ben eleni a bydd Dwynwen yn dechrau ar ei chyfnod fel y Cadeirydd newydd. Mawr yw ein diolch i Gwyn am ei wasanaeth dros y

ddwy flynedd ddiwethaf a dymuniadau gorau i Dwynwen wrth iddi gymryd y gadair. Byddwn angen ethol is-gadeirydd newydd yn y cyfarfod felly ac mae Steve Williams wedi ei enwebu. Mae Steve yn aelod o'r Clwb ers nifer o flynyddoedd a hefyd yn aelod o'r pwyllgor. Mae wedi arwain nifer o deithiau i'r Clwb dos y blynyddoedd. Mae hefyd wedi bod yn cynrychioli'r Clwb yn rheolaidd yng nghyfarfodydd cangen y gogledd o'r Cyngor Mynydda Prydeinig ac rydwyf yn sicr hefo Steve y bydd y Clwb mewn dwylo diogel.

Bydd angen i'r Cyfarfod Blynyddol gadarnhau aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2021. Mae aelodaeth bresennol y Pwyllgor fel a ganlyn:

Gwyn Williams – Cadeirydd
Dwynwen Pennant – Is-gadeirydd
Dilys Phillips – Trysorydd
Eryl Owain – Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn – Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts – Ysgrifennydd Cyffredinol
Richard Roberts
Iona Evans
Steve Williams
Dewi Hughes
Eirwen Williams
Raymond Griffiths
Gareth E Roberts

Yn ôl y cyfansoddiad bydd traean aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr) yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi bod yn eu swydd hiraf. Yr aelodau dan sylw yw:

Iolo ap Gwynn
Iolo Roberts
Dewi Hughes
Eryl Owain

Mae'r 4 aelod yma wedi datgan eu bod yn fodlon parhau os yw'r aelodaeth yn gytun ac mae'r swyddogion yn fodlon parhau yn eu swyddi hefyd.

Fel y soniwyd eisoes bydd cyfnod Gwyn fel Cadeirydd yn dod i ben ac mae Steve Williams un o aelodau eraill y Pwyllgor wedi ei enwebu fel Is-gadeirydd newydd. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno yn y gorffennol y byddai'n fanteisiol i gyn-gadeirydd barhau'n aelod am

gyfnod (os yn fodlon) er mwyn cael dilyniant. Cytunodd Gwyn i barhau'n aelod os oes lle ar gael a'r aelodaeth yn cytuno.

Gyda Steve yn dod yn is-gadeirydd gallai Gwyn gymryd ei sedd ef fel aelod cyffredin am gyfnod felly.

Ni dderbyniwyd unrhyw gais gan aelod i wasanaethu ar y Pwyllgor eleni. Yn yr amgylchiadau anodd a heriol presennol argymhellir bod gweddill aelodaeth y Pwyllgor yn aros yr un fath cyn belled â bod y Cyfarfod Blynyddol yn cytuno.

Fel pawb arall mawr obeithiaf y byddwn yn 2021 yn gallu dychwelyd i ryw fath o normalrwydd ac y bydd yn rhwyddach i ni gyd gymdeithasu ar ein teithiau ac ati, rhywbeth mae'r Clwb wedi rhagori ynddo dros y blynyddoedd.

Diolch hefyd i bawb am eu hamynedd a'u parodrwydd i ymdopi â chyfarfod blynyddol tra gwahanol eleni.

Iolo P Roberts
Ysgrifennydd Cyffredinol
Tachwedd 2020